Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cylch Meithrin Abergwili**

**Ysgol Gynradd Abergwili**
**Gyfre Gardens**
**Abergwili**
**Carmarthen**
**SA31 2JD**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

16/05/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cylch Meithrin Abergwili

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Elinor Jameson |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 13 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11.01.17 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae rhan fwyaf o blant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd wedi eu paratoi iddynt.  Mae ychydig o blant yn cael cyfleoedd i gyfathrebu a gwneud dewisiadau, ond nid yw llais y plentyn bob amser yn cael sylw.

Mae staff gofal yn dilyn rhai polisïau a gweithdrefnau i hybu lles, diogelwch a ffordd o fyw iach. Maent yn cynnig rhai gweithgareddau i ennyn diddordebau'r plant.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod rhai elfennau o'r amgylchedd yn ddiogel ac yn gosod rhai mesuriadau er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig rhai adnoddau i gwrdd â gofynion a chamau datblygiad unigol plant.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cwrdd â rhai rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaeth dda gyda'r ysgol cyfagos a rhieni.

## Llesiant

Mae rhan fwyaf o blant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd wedi eu paratoi iddynt. Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rhyngweithio yn hyderus. Fodd bynnag, roedd cyfnodau lle roedd rhai plant yn cael hi'n anodd i rannu adnoddau a chymryd tro, ac yn derbyn cefnogaeth i ddeall rheolau cymdeithasol. Mae plant yn dechrau dangos consyrn a gofal am eraill. Er enghraifft plentyn yn ymateb i un yn tisian gyda 'bless you.' Yn yr awyr agored, mae rhai plant yn cydweithio wrth wylio ei gilydd a chymryd tro a gwelwyd plant yn aros yn eiddgar cyn bod cyfle iddynt gael tro ar y beiciau.

Mae ychydig o blant yn cael cyfleoedd i gyfathrebu a gwneud dewisiadau, ond nid yw llais y plentyn bob amser yn amlwg. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd peintio, roedd plant yn dilyn syniadau'r staff gofal, yn hytrach na'u syniadau unigol nhw. Mae rhai safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac fe welwyd hyn yn yr ardal allanol, wrth i blant ddewis offer ac adnoddau a chael y rhyddid i ddefnyddio rhain.

Mae rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn egnïol wrth iddynt chwarae. Maent yn dangos peth diddordeb a mwynhad wrth gymryd rhan, ond nid oes cyfle iddynt ddewis gweithgareddau a dilyn diddordebau i ddatblygu eu dysgu yn bellach. Mae rhai plant yn dyfalbarhau i gwblhau gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn mwynhau rhyddid i symud o amgylch yr ardal mewnol. Tu allan yn yr ardal chwarae mae plant yn mwynhau'r rhyddid i symud, i wneud dewisiadau ac i ddatblygu sgiliau ac annibyniaeth.

Mae rhan fwyaf o blant yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol drwy'r gweithgareddau a drefnwyd iddynt, ond ni welwyd plant yn cael rhyddid llawn i'r adnoddau gan bod y mynediad i'r cypyrddau a'r darpariaeth chwarae yn gyfyngedig.

## Gofal a Datblygiad

Mae staff gofal yn dilyn rhai gweithdrefnau clir wrth gynnig gofal a pharatoi gweithgareddau. Mae staff gofal yn gyfarwydd â’r gweithdrefnau paratoi snac, ond nid ydynt yn gwisgo menig na ffedogau, nac yn sicrhau storio priodol o fwydydd a diod. Nid oedd gan y plant fynediad barhaol i ddŵr yfed yn ystod y sesiwn. Wrth ymweld a’r tŷ bach, sydd ym mhrif adeilad yr ysgol cyfagos, mae staff gofal yn cefnogi plant i fod yn annibynnol, er enghraifft golchi dwylo ei hunain. Mae yr arfer o olchi dwylo yn parhau cyn amser snac.  Mae gan y lleoliad bolisïau mewn lle ar gyfer rhoi meddyginiaeth a chofnodion dril tân a diogelwch y safle, ond ni welwyd dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth staff gofal wrth iddynt sicrhau gweithdrefnau diogelu a iechyd y plant. Er bod polisi diogelu ac amddiffyn plant yn ei le, nid yw staff yn hyderus gyda’r gweithdrefnau ac o ganlyniad i hyn, nid yw’r gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau.  Rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â’r mater hwn.

Mae staff gofal yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfathrebu clir ac yn annog plant i gymdeithasu, cydweithio a dangos parch at ei gilydd. Maent yn rhyngweithio yn gyson gyda’r plant ac yn cynnig rhai cyfleoedd i ystyried teimladau ac ymddygiadau ynghyd â rheolau cymdeithasol a ffiniau. Yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, mae staff gofal yn awgrymu syniadau o sut i rhannu a chymryd tro.

Ni ddefnyddir yr adnoddau a darpariaeth mewn modd effeithiol, ac mae hyn yn cyfyngu ar chwarae a dysgu’r plant. Dywedodd staff gofal bod cynlluniau ar waith i ddatblygu Cynllun Bwyta’n Iach.

## Yr Amgylchedd

Lleolir y gwasanaeth yn ffreutur yr ysgol. Nid oedd y caead rhwng y gegin a'r ffreutur yn gweithio, er bod trefniadau trwsio ar waith. Oherwydd mai dim ond un drws sydd ar gyfer cyrraedd a gadael, mae hwn yn risg sylweddol i blant ac o ganlyniad, nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau. Rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwelwyd rhai asesiadau risg, ond roedd rhain yn gyffredinol ac nid oes asesiad risg ar gyfer defnydd yr adeilad i sicrhau bod y safle yn rhydd o unrhyw beryglon. Mae plant yn cael eu tywys yn ddiogel gan staff gofal, o'r safle i'r ysgol cyfagos ar gyfer golchi dwylo a defnyddio tŷ bach. Esboniodd y person â gofal ei bod yn awyddus i drefnu cael ffôn ar y safle fel bod rhieni yn gallu cysylltu yn uniongyrchol â'r gwasanaeth yn lle drwy'r ysgol. Mae prif ddrws y safle o dan glo bob amser yn ystod sesiynau gofal ac mae cymarebau staff yn gywir.

Mae'r gofod llawr clir yn gyfyng ac yn effeithio ar chwarae'r plant ac addasrwydd yr amgylchedd. Nid oes mynediad i ddŵr ar y safle ac mae staff gofal yn gwneud eu gorau glas i sicrhau diogelwch y brif ddrws a gweithdrefnau mynd i'r tŷ bach a golchi dwylo. Mae lle chwarae bach o flaen y safle ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r ardal. Maent hefyd yn defnyddio iard yr ysgol sydd yn cynnig cyfleoedd diogel i ddatblygu sgiliau'r plant.

Nid oes gan blant mynediad llwyr i'r adnoddau tu fewn i'r safle gan fod byrddau ffreutur yn cael eu storio o flaen cypyrddau adnoddau ac yn rhwystr amlwg i'r plant. Maent hefyd yn risg gan fod plentyn yn ceisio dringo'r stolion sydd yn sownd i'r byrddau. Er bod ystod o adnoddau ar y safle, mae angen adnewyddu tipyn o'r deunyddiau chwarae a gosod gwell trefn, fel bod plant yn cael mynediad barhaol a rhyddid i ddewis a gwneud penderfyniadau eu hunain.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae person â gofal newydd yn gweithio yn y lleoliad, ond nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi derbyn hysbyseb yn nodi hyn a dywedodd staff gofal bod trefniadau hefyd ar waith i gofrestru person cofrestredig newydd. Oddi ar yr ymweliad, mae trafodaethau a threfniadau ar waith i brosesu'r newidiadau yma er mwyn cwrdd â gofynion a rheoliadau. Er ein bod wedi derbyn datganiad o ddiben newydd nid yw hwn yn adlewyrchu unrhyw newid i'r gwasanaeth.  Mae'r person cofrestredig wedi diweddaru'r datganiad ers yr ymweliad, ond nid yw'n cynnwys yr holl fanylion er mwyn cwrdd â gofynion Safonau Gofynnol Cenedlaethol.  Maent wedi cwblhau adroddiad ansawdd. Mae gan y gwasanaeth ffeil cynhwysfawr o bolisïau Mudiad Meithrin ond nid yw'r staff yn hollol gyfarwydd â'r gweithdrefnau hyn.

Nid yw dealltwriaeth staff gofal yn glir o ran cyfrinachedd a gofynion cofnodion, er enghraifft, cofnodion damweiniau a meddyginiaeth ac nid oes llofnodion staff gofal na chaniatâd rhieni mewn lle. Nid yw'r gofrestr yn nodi presenoldeb plant a staff nac yn dangos amseroedd cyrraedd a gadael, ac nid oes cofnod clir a chyson o bresenoldeb staff gofal i gyd-fynd â'r wybodaeth yn y gofrestr.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio staff yr ysgol yn achlysurol er mwyn cwrdd â gofynion cymarebau, ond nid yw'r person cofrestredig yn sicrhau bod y wybodaeth recriwtio yn ei le a bod y cymwysterau staff yn cwrdd â'r gofynion.  Nid yw staff yn cael arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd goruchwyliaeth rheolaidd. Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau. Rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae tystiolaeth bod yna bartneriaeth dda rhwng y lleoliad â'r ysgol ac mae'r staff gofal yn derbyn cefnogaeth Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin. Dywedodd rhieni eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth ac yn cydnabod bod eu plant yn hapus yn cyrraedd a gadael y safle.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R 1 – Cyfarwyddo â gofynion a dewisiadau'r plant er mwyn cynllunio yn ôl eu diddordebau.
R 2 – Trefnu adnoddau fel bod gan y plant fynediad rhwydd atynt.
R 3 – Arsylwi ar blant er mwyn datblygu eu camau nesaf dysgu a datblygiad.
R 4 – Hybu llais y plentyn.
R 5 – Staff gofal i wisgo menig a ffedogau pan yn paratoi a thrafod bwyd a threfnu bod dŵr yfed ar gael bob amser.
R 6 – Staff a rhieni yn llofnodi cofnodion rhoi meddyginiaeth bob tro.
R 7 – Sicrhau bod o leiaf un staff cymwys ar y safle bob amser.
R 8 – Ail drefnu'r ardal chwarae i gynnig gofod addas a digonol ar gyfer ystod eang o gyfleoedd chwarae a dysgu.
R 9 – Storio cofnodion plant ac unrhyw gofnodion cyfrinachol yn ddiogel ar y safle

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Not all required attendance records are complete. Ensure all regulatory records are completed. | Newydd |
| 28 | Has not obtained all required information to evidence staff suitability before they start at the setting. Ensure staff suitability before they start at the setting. | Newydd |
| 22 | Not all staff have a clear understanding of their safeguarding responsibilities and arrangements. Ensure all staff understand their safeguarding responsibilities and arrangements. | Newydd |
| 29 | Staff do not receive supervision and appraisal. Ensure all staff receive supervision and appraisal. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 25 | Not all parts of the relevant premises are free from hazards to children's safety. Ensure premises are safe and hazard free. | Newydd |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/07/2022